**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE-679-2022

Peredur Owen Griffiths AS
Chadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Mawrth 2022

Annwyl Peredur,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi y bydd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yn cael ei gynnal ar 21 Mawrth. Mae hyn yn ffurfioli cyfarfodydd pedairochrog blaenorol y Gweinidogion Cyllid o dan drefniadau newydd yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar Ddatganiad y Gwanwyn, a fydd yn cael ei wneud gan Lywodraeth y DU, ac yn cynnwys trafodaeth ar ymatebion y llywodraeth ar gyfer rhoi sylw i'r argyfwng costau byw.

Byddaf yn arwain ar eitem ar yr agenda sy'n trafod cyllidebau a chyfathrebu llywodraeth ddatganoledig, gan ganolbwyntio ar sicrwydd cyllid diwedd blwyddyn a'r hyblygrwydd cyllidebol y bydd ei angen, fel yr amlinellir yn fy llythyr atoch ar 11 Chwefror 2022.

Mae'r agenda hefyd yn cynnwys eitem ar Bapur Gwyn Llywodraeth y DU ar Godi'r Gwastad ac eitem fer ar sefydlu'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid, gan gynnwys Protocol Gweithredu a fydd yn disgrifio sut y bydd yn gweithredu'n ymarferol.

Byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r cyfarfod.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.